Newyddion o Ysgol Nefyn Mehefin a Gorffennaf

Mae diwedd y flwyddyn wedi cyrraedd yn sydyn iawn a pawb yn barod am wyliau! Cafodd y rhieni oedd yn rhan o'r "Cynllun Teulu" hwyl yn gwneud pob mathau o bethau dan arweiniad Elizabeth Watkin e.e ymweld â'r orsaf dân, gwneud gwaith drama gyda Catherine Aran, ymweld â llyfrgell Nefyn, sgwrs gan yr Heddlu am ddiogelu eu hunain a'u plant, ymweliad â'r Archifdy yng Nghaernarfon a gweithdy Celf.

Bydd y cynllun yn ail gychwyn yn Nhymor yr Hydref ac mae croeso i unrhyw riant ymuno â ni. Bydd mwy o fanylion yn dilyn wedi i'r ysgol ail agor ym mis Medi.

Y misoedd hyn bu cyfleoedd i ymweld ac i weithio tu allan i'r dosbarthiadau unwaith eto. Aeth plant dosbarthiadau Derbyn ac 1 am drip i'r Hwylfan yng Nghaernarfon. Bu disgyblion Blynyddoedd 2 a 3 yn ymweld â'r bad achub ym Mhorthdinllaen fel rhan o'u gwaith Dyniaethau. Teithiodd plant Blwyddyn 6 i Glynllifon i gymeryd rhan yn yr ŵyl gyfeiriannu yno.

Roedd cyfle i bawb ym Mlwyddyn 6 dderbyn bob math o brofiadau tra'n aros yng Nglanllyn am dri diwrnod – Canwio, teithio mewn cwch ar y llyn, adeiladu rafft, gwneud gwaith cyfeiriannu a chymeryd rhan mewn helfa drysor, dringo'r wal ddringo a'r rhaffau yn y goedwig, dawnsio a nofio.

'Roedd yn braf cael cyd chwarae a chael hwyl gyda ysgolion eraill unwaith yn rhagor – cymeryd rhan yn y diwrnodau athletau yn y ganolfan hamdden ac yng nghystadlaethau rownderi a phêl droed yn ysgol Edern.

Bu disgyblion Blwyddyn 5 yn brysur iawn yn sgipio o gwmpas Nefyn i godi arian i sefydliad y Galon a chasglwyd £180 tuag at yr ymgyrch. Bu'r plant yn sgipio fesul un drwy'r dydd.

Mae'r flanced sydd wedi ei gweu gan blant yr ysgol o dan arweiniad Anti Ela wedi tyfu'n helaeth erbyn hyn. Mae'n diolch yn fawr iawn iddi gan ei bod wedi dod yma atom am dros ugain mlynedd bellach. Mae degau os nad cannoedd o blant ysgol Nefyn wedi dysgu pwytho a gweu gyda Anti Ela.

Mae plant yr ysgol wedi dod i adnabod Swyddog Datblygu'r Ganolfan newydd yn dda iawn bellach. Mae Glyn Price yn arlunydd a bu'ngweithio gyda'r disgyblion mewn gwersi Celf – Bu'r plant yn cyd drafod, arlunio a defnyddio syniadau ei gilydd ar gyfer creu logo newydd ar gyfer y ganolfan newydd.

Gweithio gyda Ivan Murry (Plas Glyn y Weddw) y bu disgyblion Blwyddyn 6 mewn gweithdy Celf. Buont yn creu modelau allan o glai.

Mae croeso i ddisgyblion yr ysgol fynd yno i Blas Glyn y Weddw i weithio'n ei weithdai yn ystod gwyliau'r Haf.

Daeth ffrindiau eraill atom fel arfer – Anti Swsi, Anti Nia a'r Parchedig Robert Roberts i gymeryd rhan yn ein gwasanaethau. Daeth Meurig Williams i drafod "Diogelwch" ar y we gyda'r disgyblion.
Diolch i'r rhieni a ddaeth â dillad ail law ar gyfer "Bag to School". Byddwn yn derbyn arian i'r ysgol gan y cwmni am y dillad yn Nhymor yr Hydref.
Diolch i'r rhieni sydd wedi gweithio'n galed yn yr ardd ac i Yncl Dei o Dudweiliog a Thyddyn Sachau am eu caredigrwydd yn rhoi planhigion inni.
'Roedd yn braf gweld yr holl ddisgyblion yn ymuno â ni'n ystod mis Gorffennaf am wythnos – Gwenllian Williams o ysgol Eifionydd Porthmadog, Cara Jones, Rachel Williams, Paula Parry, Anest Rees Owen, Sera Catrin Jones a Jasmine Sophia Davies o ysgol Botwnnog. Diolch genod am fod mor weithgar ac annwyl yn ysgol Nefyn.
Diolch yn fawr iawn i'r rhieni a gefnogodd ein P'nawn Mabolgampau a'n Ffair Haf, Casglwyd ychydig dros fil o bunnoedd yn y ffair – er fod y noson yn damp ac yn wlyb ar adegau, a'n bod wedi gorfod cynnal y ffair i mewn yn y neuadd a'r barbaciw yn ein sied beiciau!
Mae'r rhieni'n gefnogol iawn i'r ysgol ac rydym i gyd fel staff yn gwerthfawrogi hyn yn fawr iawn.
Diolch i glwb bingo'r ysgol am roi mil o bunnoedd i ni'n ystod y flwyddyn. Hefyd diolch i griw gyrfa'r whist am roi siec arall o ddau gant o bunnoedd i ni cyn y gwyliau.
Ar ddiwedd blwyddyn fel hyn mae'n chwith gweld ein plant yn ymadael ac yn mynd i ysgol arall. Bydd 27 ohonynt yn cychwyn yn Ysgol Botwnnog a 2 yn Ysgol Glan y Môr, Pwllheli. Pob lwc ichi i gyd a chofiwch alw i'n gweld yn aml.
Bydd croeso mawr i Taliesin atom i Flwyddyn 4 o Ysgol Morfa Nefyn ym mis Medi. Hefyd bydd croeso i un ar ddeg o blant bach i ddosbarth Meithrin yr ysgol.
Bydd yr ysgol yn cychwyn ar Fedi'r 2il 2010 i'r plant (ar Fedi'r 6ed i blant bach Meithrin).